



Diwrnod Partneriaeth rhwng *Cymru'n Cofio* 1914-1918 ac Amgueddfeydd Rhyfel yr Ymerodraeth

Canolfan MedRus, Prifysgol Aberystwyth

Dydd Iau, 28 Ionawr 2016

Trafodaethau grŵp am gynlluniau a syniadau ar gyfer digwyddiadau coffa yn 2016

Gofynnwyd i'r rheini a oedd yn bresennol ffurfio grwpiau a gwahoddwyd pob un o'r grwpiau i ystyried dau o'r tri chwestiwn isod:

C1 'Trafodwch y cymorth, y cyllid a'r partneriaethau a fyddai ar gael ichi yn 2016'

C2 'Pa gynlluniau/syniadau sydd gennych ar gyfer coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn 2016? Pa gynulleidfaoedd yr hoffech eu targedu yn 2016?'

C3 'A fyddai'ch sefydliad yn hoffi cydweithio â Blwyddyn y Ffilm? Pe byddai, pa syniadau sydd gennych ar gyfer prosiectau?'

C1 'Trafodwch y cymorth, y cyllid a'r partneriaethau a fyddai ar gael ichi yn 2016'

Cymorth

- Gallai'r ffynonellau cymorth gynnwys:
 - Gwefan *Cymru'n Cofio* 1914-1918 a'r cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig
 - Llyfrgell Genedlaethol Cymru
 - Amgueddfa Cymru – National Museum Wales
 - Gwefan Casgliad y Werin Cymru
 - Aelodau a safleoedd Partneriaeth Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
 - Cronfa Treftadaeth y Loteri
 - Rhwydweithiau lleol e.e. radio a phapurau newyddion lleol, grwpiau ac archifau cymunedol
- Gellir defnyddio cyfleusterau sy'n bodoli eisoes, e.e. cyfleusterau'r Llyfrgell Genedlaethol, er mwyn osgoi dyblygu amcanion prosiectau etc.
- Mae trefnu tanysgrifiad i gael newyddlen Cronfa Treftadaeth y Loteri yn ffordd dda o gael gwybod am sefydliadau sy'n trefnu prosiectau tebyg.

Cyllid

- Mae cael cymorth (e.e. oddi wrth staff Cronfa Treftadaeth y Loteri) i baratoi ceisiadau yn fuddiol iawn
- Roedd y ffynonellau cyllid a nodwyd yn cynnwys Cadw, yr Adran Addysg a Sgiliau, Cronfa Treftadaeth y Loteri, yr awdurdodau lleol, Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, a Chyngor y Celfyddydau. Mae rhagor o ffynonellau cyllid i'w gweld yn nhaflen wybodaeth *Rhaglen 2016* (gweler tudalennau 22 a 23).
- Mae cyllido torfol yn ffynhonnell arall o gyllid y gellir ei hystyried, ac mae enghreifftiau o brosiectau sydd wedi llwyddo i godi arian drwy wneud hynny

- Gellir denu cyllid o'r sector preifat, e.e. uwchfarchnadoedd mawr, cwmnïau ynni etc.
- Nodwyd bod gwerthuso'n bwysig, a hynny er mwyn hoelio sylw ar ganlyniadau a sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd.

Partneriaethau

- Mae digwyddiadau fel y Diwrnod Partneriaeth hwn yn ddefnyddiol iawn ar gyfer nodi partneriaethau posibl – maent yn gyfle i rwydweithio, i feithrin cysylltiadau ac i rannu syniadau
- Ymhlith y partneriaid posibl y mae Casgliad y Werin Cymru, llyfrgelloedd lleol, yr FWWCP, Canolfannau Ymgysylltu Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), amgueddfeydd lleol a chenedlaethol, a chymdeithasau hanes
- Nodwyd bod partneriaethau cymunedol yn bwysig o ran creu casgliadau o ddeunydd perthnasol
- Nododd y cynrychiolwyr fod mathau gwahanol o bartneriaethau – e.e. gyda'r sector gwirfoddol. Mae hynny'n fodd i ddenu arbenigedd technegol, a hefyd bobl i gefnogi prosiectau.

C2 'Pa gynlluniau/syniadau sydd gennych ar gyfer coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn 2016? Pa gynulleidfaodd yr hoffech eu targedu yn 2016?'

Cynlluniau a syniadau

- Ymhlith y digwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal neu sy'n cael eu trefnu y mae'r canlynol: digwyddiadau yn Fron-goch ar 11 Mehefin i goffáu'r canmlwyddiant; *Cofio dros Heddwch* (gan gynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau, megis sgysiau a darlithoedd am ffoaduriaid o Wlad Belg a ddaeth i Gymru) a llawer o arddangosfeydd a digwyddiadau eraill yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, megis cyfrannu at wefan 'Cymru yn y Rhyfel'; amryfal arddangosfeydd a digwyddiadau yn Amgueddfa Cymru – National Museum Wales, megis arddangosfa 'Tros Ryddid ac Ymerodraeth' a rhaglen helaeth o sgysiau, teithiau etc.; tymor o raglenni ar y BBC yn hoelio sylw ar y Rhyfel Byd Cyntaf; yn Amgueddfa Dinbych, mae cymdeithasau hanes wedi bod yn gweithio gyda phobl o bob oed i ymchwilio i'r cyfnod er mwyn creu arddangosfa; mae cymuned Llansteffan yn Sir Gaerfyrddin yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau yn ystod Gŵyl Banc mis Awst er mwyn edrych ar y rhan y chwaraeodd yr ardal yn y Rhyfel. Mae'r digwyddiadau hynny'n cynnwys drama i'w pherfformio gan blant lleol, dylunio ffenestr gwydr lliw ar gyfer yr ysgol; mae Sefydliad y Merched yn trefnu digwyddiad Theatr Gerdd, a bydd yr holl ddigwyddiadau hyn yn cael eu tynnu ynghyd mewn llyfr a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y prosiect; mae prosiect lleol yn Nhalacharn hefyd i edrych ar y rhan y chwaraeodd yr ardal yn y Rhyfel; mae InterAct Wales yn bwriadu cyflwyno darn o waith theatr i nodi'r Canmlwyddiant yng Ngŵyl Caeredin; mae cynlluniau ar droed i gyhoeddi llyfr a fydd yn seiliedig ar ganfyddiadau gwefan 'Cofebion Rhyfel Dyfed'; a bydd prosiect ym Mhrifysgol Aberystwyth lle bydd myfyrwyr yn ymchwilio i'r gofeb yn adeilad yr Hen Goleg i staff a myfyrwyr o'r brifysgol a aeth i ryfel. Trafodwyd llawer iawn o brosiectau eraill – gellir cysylltu â'r cynrychiolwyr gan ddefnyddio'r manylion ar y rhestr o'r rheini a wahoddwyd i'r Diwrnod
- Gallai arweinwyr prosiectau gysylltu â sefydliadau fel Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, er enghraifft, ar gyfer prosiectau'n ymwneud â beddau rhyfel. Gallent feithrin cysylltiadau â phrosiectau tebyg eraill gan ysgolion a chymdeithasau lleol ac yna cysylltu eu prosiectau hwy â'r coffáu cenedlaethol.

- Gellid meithrin cysylltiadau â phrosiect Coetiroedd y Canmlwyddiant, gan ganolbwyntio ar themâu amgylcheddol ac ar themâu'n ymwneud â phobl ifanc ac anifeiliaid
- Mae llawer o gyfleoedd i gysylltu gwaith prosiect a gweithgareddau, yn enwedig gan ysgolion, â digwyddiadau coffa'n ymwneud â Hedd Wyn
- Prosiect yn hoelio sylw ar sut y newidiodd rolau menywod yn ystod y Rhyfel – byddai modd creu gwefan, ac efallai rhoi sylw i bosteri hefyd. Awgrymwyd hefyd na ddylid canolbwyntio'n unig ar sut y newidiodd rolau menywod gartref yn ystod y Rhyfel, ond hefyd ar y tasgau yr oeddent yn eu gwneud ar faes y gad. Dylid rhoi sylw hefyd i fenywod a enwir ar gofebion rhyfel
- Mae gweithdai'n ffordd wahanol ac effeithiol o godi ymwybyddiaeth am y Rhyfel, gan gynnwys gweithdai barddoniaeth
- Awgrymwyd y gellid cynnal sesiynau coginio, gan ddefnyddio ryseitiau o gyfnod y Rhyfel
- Pwysleiswyd ei bod yn bwysig bod prosiectau'n gadael gwaddol parhaol.

Cynulleidfaedd

- Mae'r gynulleidfa darged bosibl yn cynnwys pawb, ond yn enwedig ysgolion
- Rhaid cynnwys cymunedau mewn ffordd ystyrlon. Mae brwdfrydedd mawr mewn archifau ac amgueddfeydd lleol ac ymhlith gwirfoddolwyr lleol
- Gellid targedu cynulleidfaedd sydd yr un oedran ar hyn o bryd â'r milwyr cyffredin a aeth i ryfel – gan gymharu profiadau'r bobl a aeth i ryfel â phobl o'r un oedran heddiw – yr un oedran, o bosibl, â Hedd Wyn, ac edrych ar brofiadau Hedd Wyn o'r Rhyfel
- Gallai'r ffyrdd posibl o gyrraedd cynulleidfaedd gynnwys: blogiau; Twitter; gwefannau; taflenni; a phaneli gwybodaeth.

C3 'A fyddai'ch sefydliad yn hoffi cydweithio â Blwyddyn y Ffilm? Pe byddai, pa syniadau sydd gennych ar gyfer prosiectau?'

Blwyddyn y Ffilm a ffilm 'Brwydr y Somme'

- Dyma rai o'r syniadau ar gyfer dabgos y ffilm:
 - Ei dangos yn yr awyr agored (h.y. llain agored yn y goedwig, Coed Cadw)
 - Ei dangos mewn lleoliadau anarferol, e.e. mewn ffosydd sydd wedi cael eu hail-greu
 - Ei dangos mewn coleg chweched dosbarth ar gyfer y celfyddydau perfformio
- Gellid ei defnyddio ym mhob rhanbarth er mwyn ennyn diddordeb cymunedau lleol
- Roedd ychydig o sefydliadau wedi mynegi diddordeb yn barod mewn dangos y ffilm neu wedi gwneud trefniadau i'w dangos, gan gynnwys ei dangos gyda cherddorfa fyw, ei dangos mewn neuadd a godwyd i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ac sydd â lle i 400 o bobl, ac efallai ei dangos mewn neuadd ysgol
- Roedd aelodau'r grŵp am weld y ffilm yn gyntaf er mwyn cael syniadau am sut/pryd i'w dangos, ac am ba raglenni eraill y gallent eu trefnu i gyd-fynd â hi
- Bu aelodau'r grŵp yn trafod sut y gallent weithio gyda'i gilydd er mwyn i bob rhanbarth/cymuned yng Nghymru gael cyfle i weld y ffilm
- Awgrymwyd y gellid trefnu i ffilm Brwydr y Somme fod ar gael i'w defnyddio am ddim (Nodyn gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad – fe fydd yn rhad ac am ddim i aelodau!)

Ffilm a Threftadaeth

- Mae ffilm yn caniatáu i sefydliadau weithio gyda chynulleidfaoedd gwahanol (e.e. paneli ieuenctid, grwpiau cymunedol, ffermwyr ifanc), ac i feithrin eu sgiliau (e.e. perisgop) er mwyn iddynt fedru ffilmio a defnyddio technegau gwahanol sy'n gysylltiedig â ffilm
- Mae'n ymddangos bod llawer o'r ffocws ar goffáu yng nghyd-destun Cymru – mae angen cynnwys gwledydd eraill a oedd yn rhan o'r brwydro
- Posiblirwydd o ddangos ffilmiau o wledydd eraill – gŵyl ffilmiau ryngwladol efallai yn edrych ar y Rhyfel o safbwyntiau eraill
- Awgrym am ffilm yn canolbwyntio ar brosiectau lleol
- Mae'n bwysig edrych ar gyd-destun cymdeithasol y Rhyfel, e.e. newidiadau i gymdeithas, i amaethyddiaeth, i'r economi etc.
- Gellid defnyddio ffilmiau fel adnoddau addysgol
- Gellid cynhyrchu ffilm yn edrych ar gerddoriaeth y Rhyfel
- Gallai grwpiau/cydgysylltwyr prosiectau edrych i weld a oes ffilmiau yn yr archifau sy'n rhoi sylw i'r Rhyfel Byd Cyntaf, e.e. Amgueddfeydd Rhyfel y Gymanwlad ac efallai Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru.

Ffilm Brwydr y Somme

Gwnaed y sylwadau isod ar ôl i'r ffilm gael ei dangos:

- Mae'r ffilm yn ffilm bropaganda.
 - Mae'r FWWCP yn awyddus iawn i drafod hynny gan ddefnyddio'r adnoddau sy'n cael eu darparu'n rhad ac am ddim ac sy'n cynnwys pecynnau ymchwil a ffilmiau 'pennau'n siarad' sydd ar gael i'r aelodau ochr yn ochr â'r ffilm
- Mae dal yn berthnasol i ryfeloedd heddiw, ac mae'n rhoi cip ar yr amodau a brofodd pobl ac anifeiliaid ar flaen y gad
- Gofynnodd un o'r cynrychiolwyr a fyddai modd dangos ffilm debyg a gynhyrchwyd yn yr Almaen. Esboniodd Amgueddfeydd Rhyfel yr Ymerodraeth nad oes ganddynt yr hawliau angenrheidiol i ddangos y ffilm
- Eglurodd staff Amgueddfeydd Rhyfel yr Ymerodraeth y bydd modd dewis sgôr gyfoes i gyd-fynd â'r ffilm.